# TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

## CYMRAEG IAITH
### TGAU

### TACHWEDD 2023

© WJEC CBAC Cyf.

## Rhagarweiniad

Mae adroddiadau'r Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu’r dogfennau hyn ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac maent yn cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cyffredinol o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n mynd ati i edrych yn fanwl ar bob cwestiwn/adran o bob uned, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[i]

Gall y wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

## Cefnogaeth bellach

| Dogfen | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen flynyddol eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Edrychwch ar y gronfa o gyn-bapurau sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder bod cyn-bapurau yn cael eu cyhoeddi ar wefannau cyhoeddus CBAC a CBAC Eduqas rhwng 1 Rhagfyr a 31 Rhagfyr yn y flwyddyn ar ôl yr arholiad. | www.wjecservices.co.uk neu ar y dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd.<br>Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc yn gyffredinol, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i staff y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | www.wjecservices.co.uk |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | www.wjecservices.co.uk neu ar y dudalen pwnc CBAC |
| Dod yn arholwr gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Dod yn Arholwr \| CBAC |

© WJEC CBAC Cyf.

| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 4 |
| Uned 1 | 5 |
| Uned 2 | 10 |
| Uned 3 | 14 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 18 |

© WJEC CBAC Cyf.

**Crynodeb Gweithredol y Swyddog Pwnc**

Cofrestrwyd 845 o ymgeiswyr ar gyfer y cymhwyster hwn yn Nhachwedd 2023. Mae hwn yn gynnydd sylweddol ar nifer yr ymgeiswyr yn Nhachwedd 2022 (331 ymgeisydd.)

**Uned 1**
Mae adroddiad penodol i bob canolfan a gyflwynodd waith i'w safoni yn ddogfen werthfawr i bob canolfan ar y wefan ddiogel. Dylid nodi bod angen cyflwyno nodiadau i ymgeiswyr ar gyfer y ddwy dasg lafar. Mae'r Prif Safonwr yn canmol y nodiadau gan athrawon ar y taflenni marciau sy'n gymorth mawr wrth safoni'r gwaith. Mae naturioldeb wrth gyflwyno a strwythuro gofalus a thystiolaeth o ymchwil manwl gan y goreuon wrth gyflawni Tasg 1 yn y gyfres hon wedi ei ganmol. Wrth ddarllen yr adroddiad mae gorstrwythuro ymatebion i Dasg 2 a cholli naturioldeb y drafodaeth yn achosi ychydig o ofid.

**Uned 2**
Da oedd gweld bod dros 90% o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn. Mae A7 ac A11 yn parhau i fod yn gwestiynau heriol i'r ymgeiswyr ond canmolwyd gwell strwythur i'r atebion a nifer dda wedi llwyddo i gyfuno gwybodaeth ond roedd safon y dehongli'n cyfyngu ar farciau'r ymgeiswyr gwannaf. Roedd y ddwy dasg ysgrifennu wedi apelio i'r ymgeiswyr a'u gafael ar y ffurfiau'n dda. Roedd safon cynnwys y gwaith yn ddieithriad yn well na safon y mynegiant. Calonogol oedd gweld yr ymdrech i ysgrifennu'n estynedig er bod hynny'n her i rai.

**Uned 3**
Calonogol oedd gweld bod mwy o ganran o ymgeiswyr wedi ymgeisio i ateb y cwestiynau. Yn amlwg roedd rhai cwestiynau wedi amlygu yn fwy o her i nifer o ymgeiswyr gydag ychydig yn gallu dehongli'r wybodaeth yn llwyddiannus yn A6. Roedd llawer heb sylweddoli beth oedd y cwestiwn oedd angen ei ateb yn A8 er gwaethaf ein bod wedi ychwanegu cymal "Cyfeiriwch at enghreifftiau o dechnegau arddull yn eich ateb" i'w cynorthwyo yn y gyfres hon. Roedd dehongli teitl "Gweld llais a chlywed llun" yn A9 yn anodd i rai ac er bod y cymharu yn A11 yn galonogol nid oeddent yn cwblhau'r cam nesaf ac yn dehongli'r wybodaeth.
Calonogol hefyd oedd gweld bod gwell canran o ymgeiswyr wedi ateb y cwestiynau ysgrifennu gan mai hon oedd y gyfres gyntaf lle nad oeddem wedi rhyddhau gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer yr ymgeiswyr.

| Meysydd i'w gwella | Adnoddau ystafell ddosbarth | Disgrifiad byr o'r adnodd |
|---|---|---|
| Cyfuno a chymharu | DPP Tachwedd Unedau 2 a 3 2023 | Technegau addysgu'r sgiliau |
| Cwestiynu er mwyn datblygu dehnogli | DPP Uned 2 Tachwedd 2023 | Technegau addysgu'r sgiliau |
| Dangos ymwybyddiaeth o Gynulledifa Uned 1 | DPP Uned 1 Tachwedd 2023 | Enghreifftiau a chyngor ar sut i ystyried cynulledifa wrth gyflwyno |

© WJEC CBAC Cyf.

## CYMRAEG IAITH

## Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

## Tachwedd 2023

## UNED 1

### Sylwadau cyffredinol

Bu'n bleser, unwaith eto, gwrando ar gyfraniadau llafar ymgeiswyr o bob rhan o Gymru a diolchir i'r canolfannau am eu harweiniad cadarn i'r ymgeiswyr. Rhoddir y cyfle gorau i bob ymgeisydd lwyddo drwy sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth lawn o ofynion y ddwy dasg. Cafwyd cyflwyniadau unigol difyr ac amrywiol iawn a dangoswyd diddordeb gwirioneddol yn y pynciau a drafodwyd. Cafwyd trafodaethau manwl ar draws yr ystod gyda sawl enghraifft o fynegi safbwyntiau aeddfed iawn. Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol mewn canolfannau gydag effeithiau'r cyfnodau o golli addysg yn parhau, yn arbennig felly o ran sgiliau llafar carfan fawr o'r ymgeiswyr. Diolchir i addysgwyr yn yr holl ganolfannau am eu hymdrechion cyson i adfer hyder ymgeiswyr ar lafar. Diolch hefyd i'r safonwyr am sicrhau cysondeb a thegwch i'r holl ymgeiswyr.

Cyflwynir y sylwadau isod yng nghyd-destun cofrestriadau llai na chyfres yr haf ac mae cofrestriadau Tachwedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

### Gwaith gweinyddol

Roedd y gwaith gweinyddol yn drefnus ac yn gyflawn bron yn ddieithriad. Gwerthfawrogir ymdrechion y canolfannau i gyflwyno nodiadau'r ymgeiswyr ar blatfform digidol gan gydnabod y llwyth gwaith sy'n ymwneud â'r broses. Gyda phob cyfres, gwelir datblygiad calonogol yn y nodiadau a geir ar y taflenni marciau ac mae'r sylwadau yn gosod cyd-destun gwerthfawr i ni fel safonwyr.

### Cryfderau:

- Cyflwynwyd mwyafrif yr asesiadau erbyn y dyddiad a bennir gan CBAC
- Roedd nodiadau'r athro yn fanwl mewn sawl achos gyda rhai sylwadau'n nodi'r hyn oedd yn cadw'r ymgeisydd rhag cyrraedd band uwch
- Gwelwyd tystiolaeth o safoni mewnol
- Cadwyd at y terfynau amser yn amlach na pheidio
- Roedd sain y recordiadau'n dda
- Roedd mwyafrif y canolfannau wedi cyflwyno nodiadau'r ymgeiswyr ar gyfer y ddwy dasg
- Nodwyd bod dibyniaeth ar nodiadau mewn ambell achos a chyfeiriwyd at y ffaith i hyn gael ei ystyried wrth bennu marc
- Nodwyd y manylion perthnasol ar ddechrau'r traciau bron yn ddieithriad
- Diolch am sicrhau bod safonwyr yn adnabod lleisiau gwahanol unigolion drwy eu bod wedi cyflwyno eu hunain cyn dechrau trafod

© WJEC CBAC Cyf.

**Meysydd i'w datblygu:**

- Gwelwyd ambell wall gweinyddol megis nodi'r marciau anghywir i dasgau ar IAMIS
- Ni chyflwynwyd nodiadau'r ymgeiswyr ym mhob achos a bu'n rhaid gwneud cais am y nodiadau hynny
- Roedd ambell sylw yn gôr ganmol a heb fod yn adlewyrchu perfformiad yr ymgeisydd
- Roedd ambell sylw yn gweddu'n berffaith i'r perfformiad a gafwyd ond bod y marciau'n adlewyrchu band uwch o farciau

**Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil**

Roedd yr ymgeiswyr, bron yn ddieithriad, yn dangos dealltwriaeth gadarn o ofynion y dasg hon. Dim ond llond llaw na lwyddodd i strwythuro cyflwyniad a diolchir i'r athrawon yn yr achosion hynny am lwyddo i gael yr ymgeiswyr i wneud cyfraniad llafar am bwnc o ddiddordeb trwy gyfrwng cwestiynau sensitif. Dewiswyd testunau amrywiol a dangosai'r ymgeiswyr ddiddordeb yn eu meysydd a pharodrwydd i ymchwilio a threfnu gwybodaeth. Mae hon yn dasg sydd yn gofyn am arddangos sawl sgil ac mae nifer o ymgeiswyr yn gwneud hynny'n ddeheuig. Mae mwy a mwy o ymgeiswyr yn gwneud ymdrech amlwg i ddenu a chynnal diddordeb cynulleidfa a chafwyd mwynhad o wrando ar eu cyflwyniadau.

Dyfynnir o adroddiad Haf 2023 gan fod yr un duedd yn amlwg yn y gyfres hon: 'Pery'r pryder ynghylch anghysondeb yn yr asesu gyda'r dasg hon er ei bod wedi hen wreiddio a bod y disgwyliadau yn gyson ers rhai blynyddoedd.'

**Cryfderau:**

- Mae'r cyflwyniadau gorau yn rhai naturiol heb or ddibyniaeth ar nodiadau
- Testunau difyr oedd yn ennyn diddordeb e.e. 'Effaith arian ar fyd pêl-droed' yn hytrach na phwnc eang fel pêl-droed
- Testunau amrywiol o fewn canolfannau yn adlewyrchu diddordebau eang
- Llwyddodd nifer fawr i sbarduno diddordeb yn eu maes trwy ymgysylltu â'r gynulleidfa o'r dechrau trwy ddulliau megis datganiadau, dyfyniadau a chwestiynau rhethregol
- Mae mwy o deimlad o bwrpas i'r cyflwyniadau hynny sydd â chyflwyniad sy'n gosod nod a chyd-destun cyn cyflwyno agweddau
- Roedd y mwyafrif wedi trefnu eu gwaith ymchwil yn effeithiol gan flaenoriaethu gwybodaeth yn drefnus
- Mae mwy o ymgeiswyr yn ymdrechu i ddehongli trwy gydol y cyflwyniad
- Mae teitlau sy'n cynnwys datganiad neu gwestiwn yn parhau i arwain at fwy o ddehongli yng nghorff y cyflwyniad e.e. 'Sut mae Yma o Hyd yma o hyd?'
- Cafwyd arweiniad sensitif mewn sawl achos pan nad oedd yr ymgeisydd wedi ymchwilio'n ddigonol neu heb drefnu cyflwyniad
- Cafwyd sawl achos o ateb cwestiynau yn fanwl a naturiol gyda'r atebion hynny yn ychwanegu at y cyflwyniad
- Gwelwyd nodiadau unigol cryno iawn ac yn cynnwys symbolau yn lle geiriau ac arweiniai'r rhain at fwy o naturioldeb yn y cyflwyno

© WJEC CBAC Cyf.

**Meysydd i'w datblygu:**

- Mae'r duedd gan rai i restru ffeithiau cryno a moel yn parhau e.e. rhestr o lwyddiannau tîm pêl-droed dros gyfnod o flynyddoedd pan gellid bod wedi crynhoi a grwpio'r llwyddiannau hynny
- Roedd rhai yn dewis agweddau mor eang y gallent fod yn gyflwyniadau yn eu hunain ac oherwydd hyn nid oedd amser i ddyfnder
- Nid oedd ôl ymchwilio ar sawl cyflwyniad a chofier mai dyma sylfaen y dasg ac nid siarad o brofiad personol yn unig (mae'r elfen o ddethol, blaenoriaethu a threfnu gwybodaeth yn rhan allweddol o'r dasg)
- Unwaith eto, ni roddwyd cyfle i rai ateb cwestiynau ar derfyn y cyflwyniadau a byddent wedi cael budd o wneud hynny er mwyn dangos mwy o wybodaeth a mwy o naturioldeb
- I'r pegwn arall, nid yw atebion wedi eu sgriptio i gwestiynau wedi eu paratoi ymlaen llaw yn ychwanegu dim at y cyflwyniad ei hun
- Cofier nad tasg ddarllen yw hon ac y dylid ystyried y marc cynnwys a mynegiant yn ofalus os yw ymgeisydd yn dilyn ei nodiadau yn slafaidd

**Enghreifftiau o destunau:**

- Menywod yn y byd gwyddonol
- Hinsawdd ein byd
- Problemau ariannol Undeb Rygbi Cymru
- Datblygiad dawnsio gwerin
- Effaith ffilterau harddwch ar bobl ifanc (gan osgoi mynegi barn)
- Perygl Rygbi
- Gwell Cymro oddi cartref?

**Testunau rhy eang:**

- Pêl-droed
- Cathod
- Hoci
- Gangiau
- Awstralia

**Ymateb a Rhyngweithio**

Cafwyd trafodaethau bywiog a difyr. Roedd y grwpiau, bron yn ddieithriad, yn trafod yn gwbl annibynnol am ddeng munud ac mae hyn i'w ganmol yn fawr. Fel yn yr haf, 'Ffôn, ffôn, ffôn' oedd y testun mwyaf poblogaidd ond cafwyd sawl trafodaeth ar y testun 'Chwarae Teg' yn ogystal. Llwyddodd y mwyafrif i wneud defnydd da o'r sbardun ac roedd y grwpiau oedd yn dangos mwy o aeddfedrwydd wedi perchnogi'r dasg ac wedi gwneud gwaith ymchwil annibynnol.

**Cryfderau:**

- Trafodaethau manwl a phwrpasol gan nifer oedd wedi trafod tua thair agwedd ar y testun mewn dyfnder
- Yn achos y rhai sydd wirioneddol yn gwrando ar ei gilydd, mae'r drafodaeth yn esblygu'n naturiol a'r rhyngweithio'n gwbl naturiol
- Roedd y goreuon yn trafod y testunau'n ddeallus
- Dod i gasgliadau ar derfyn y drafodaeth a chyfle i bob aelod grynhoi ei safbwyntiau

© WJEC CBAC Cyf.

- Aelodau'r grwpiau yn newid cyfeiriad y drafodaeth heb arweiniad athro
- Sawl grŵp ar y brig yn trafod yn bwrpasol
- Defnyddio tystiolaeth i gefnogi barn yn ddeheuig mewn sawl achos
- Gwelwyd llai o ymgeiswyr yn 'cadeirio'r' drafodaeth

**Meysydd i'w datblygu:**

- Cafwyd achos pan na lwyddodd un ymgeisydd i fynegi ei farn gan ei fod yn holi cymaint ar ymgeiswyr eraill a rhaid cofio mai nod y dasg yw clywed safbwyntiau pob ymgeisydd heb i neb fod yn chwarae rôl benodol
- Mae'r duedd i sgriptio datganiadau hirfaith ar ddechrau trafodaethau yn parhau mewn ambell achos ac mae cyfnod o dri munud yn gallu mynd heibio heb i unrhyw aelod o'r grŵp fynegi safbwynt
- Cafwyd rhyngweithio hollol annaturiol ble roedd ymgeiswyr yn dweud eu bod yn cytuno â datganiad cyn dweud rhywbeth hollol ddigyswllt
- Mae rhai yn parhau i gyflwyno gwybodaeth ar draul mynegi barn
- Cyflwynwyd copi o'r sbardun heb nodiadau mewn ambell achos ble'r oedd yn amlwg bod dibyniaeth ar nodiadau

**Iaith**

Gwneir ymdrech arbennig gan nifer o'r ymgeiswyr i ddefnyddio terminoleg testun gan wneud hynny'n naturiol. Mae geirfa yn aml yn rhagori ar gywirdeb. Mae brawddegau anghyflawn yn dal i amlygu eu hunain fel tuedd ddiweddar a byddai ymarferion ffurfio brawddegau cyflawn yn fuddiol a gellid cyfuno hyn gydag ymarferion prawf ddarllen ar gyfer y papur Uned 2. Mae mwyafrif llethol yr ymgeiswyr yn cyfleu ystyr yn effeithiol gydag ond ychydig yn cael eu llesteirio gan eirfa gyfyng.

**Gwallau cyffredin:**

- Dyddiadau a blynyddoedd yn Saesneg
- Nifer o dermau byd pêl-droed yn benodol yn Saesneg
- Gwallau treiglo ar ôl 'yn' traethiadol e.e. yn gael, yn gwirion
- Cystrawen e.e. i gyd o, mae fi ddim, mae o ddim
- Brawddegau heb ferfau
- Gwallau amrywiol yn ymwneud â chenedl enwau

**Asesu**

Mae'r duedd i fod yn hael yn parhau ac yn deillio o ddealltwriaeth o allu ymgeisydd ar ei orau. Rhaid, serch hynny, asesu'r perfformiad ar y diwrnod. Y prif heriau ac ystyriaethau wrth bennu marc yw:

**1.** Lefel y gwerthuso, dadansoddi a dehongli sy'n bresennol mewn cyflwyniadau unigol – ni ellir cyrraedd Band 3 gyda chyflwyniad sy'n rhestr o ffeithiau ac ni ellir cyrraedd Band 4 hed werthuso a dadansoddi pwrpasol na chwaith Fand 5 heb aeddfedrwydd a threiddgarwch

**2.** Lefel cywirdeb yr iaith, ehangder yr eirfa a chywirdeb y patrymau e.e. gellir derbyn y bydd gwallau iaith ym Mand 4 ond ni ellir cyrraedd y band hwn pan fo gwallau amrywiol ac arwyddocaol sy'n effeithio ar y cyfathrebu yn amlwg (sawl math o wall, cystrawennau chwithig, berfau anghywir, geiriau Saesneg a chenedl enwau)

**3.** Manylder, dyfnder a lefel aeddfedrwydd y drafodaeth grŵp e.e. gellir trafod am ddeng munud ond bod y drafodaeth yn ailadroddllyd a'r safbwyntiau heb eu datblygu

© WJEC CBAC Cyf.

**Crynodeb o’r prif bwyntiau:**

1. Er mwyn strwythuro cyflwyniadau pwrpasol ble mae dehongli cyson yn digwydd, dylid ystyried gosod datganiad neu gwestiwn ar ddechrau’r cyflwyniad ac fel agweddau
2. Dylid osgoi sgriptio y ddwy dasg er mwyn sicrhau naturioldeb ac apêl i’r gynulleidfa
3. Mae dangos ymwybyddiaeth gref o gynulleidfa yn cyfoethogi’r dasg unigol
4. Dylid gwrando yn ofalus yn ystod y drafodaeth grŵp er mwyn ymateb yn naturiol i’r safbwyntiau gan ddatblygu dadleuon mewn dyfnder trwy hynny

© WJEC CBAC Cyf.

## CYMRAEG IAITH

## Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

## Tachwedd 2023

## UNED 2

### Trosolwg o'r Uned

Diolch i'r holl ganolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr ar gyfer y gyfres hon am eu gwaith yn meithrin y dysgwyr ar lawr dosbarth. Er bod mwy o ymgeiswyr nag arfer wedi cael eu cofrestru yn gyfres, roedd y garfan yn parhau i fod yn un fechan iawn ac oherwydd hynny ni welwyd yr un ystod a welwyd yn yr haf. Rhaid ystyried hynny wrth gnoi cil ar yr hyn sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad. Roedd y safon yn gyffredinol yn well yn y gyfres hon o'i chymharu â chyfresi Tachwedd y gorffennol, ac roedd hynny'n hynod galonogol.
Unwaith eto, roedd y cwestiynau adalw gwybodaeth yn Adran A, yn ddieithriad, yn hygyrch iawn. Llwyddodd cwestiynau A4, A7 ac A11 i ddangos yr ystod yn y garfan.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**<u>Adran A</u>**

Ni chafwyd trafferthion penodol yn y cwestiynau canlynol A1, A2, A3, A5, A9, A10. Dyma fymryn o sylwadau ar y cwestiynau a brofodd yn fwy o her i'r ymgeiswyr.

**A1.**
Nid oedd ambell un yn ennill y marc gan nad oeddent wedi nodi 'metr/m' ar ôl y 536.

**A4.**
Prin iawn, iawn oedd y rhai na fentrodd i ateb y cwestiwn hwn ac roedd hynny'n galonogoliawn i'w weld.
Cafwyd rhestr o fanteision air am air o'r darn darllen gan y mwyafrif ac oherwydd hynny dim ond un marc a wobrwywyd iddynt. Yn yr atebion gorau, llwyddodd yr ymgeiswyr i drafod un pwynt ar y tro o'r darn darllen gan ddehongli'r manteision e.e. *y clwb yn un cynhwysol sy'n ystyried anghenion ac ymrwymiadau gwaith pobl yn y gymdeithas gan eu bod nhw'n cynllunio teithiau ar gyfer pob gallu yn ogystal â theithiau yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau.* Roedd y goreuon yn llwyddo i esbonio'r manteision yn fanwl a chraff.

**A7.**
Roedd safon yr atebion a welwyd ar gyfer y cwestiwn hwn yn amrywiol iawn. Roedd hi'n amlwg bod ambell un wedi camddehongli'r cwestiwn gan feddwl mai cwestiwn a oedd yn gofyn iddynt drafod technegau / arddull oedd hwn. Roedd y cwestiwn yn gofyn yn benodol i'r ymgeiswyr ddehongli cynnwys y darn wrth ddisgrifio sut mae Huw Jack Brassington yn teimlo yn ystod y ras.

Yn debyg i gwestiwn A4, roedd yr ymgeiswyr ar waelod yr ystod yn llwyddo i godi ffeithiau / gwybodaeth o'r darn darllen gan ddefnyddio tystiolaeth o dro i dro er mwyn cefnogi hynny. Roedd tuedd hefyd i aralleirio'r darn darllen yn hytrach na dehongli'r hyn a oedd yn ymhlyg yn y darn. Llwyddodd y goreuon i adnabod nifer o deimladau gwahanol gan ddefnyddio tystiolaeth yn dda er mwyn cefnogi eu sylwadau. Yn debyg i gwestiwn A11 ac A4, roedd y mwyafrif yn llwyddo i strwythuro eu hatebion yn drefnus ac roedd hynny'n amlwg wedi cael ei drwytho yn y canolfannau.

© WJEC CBAC Cyf.

**A11**
Gwelwyd mwy o atebion heb eu hymgeisio ar gyfer y cwestiwn hwn nag unrhyw gwestiwn arall yn Adran A. Llwyddodd y mwyafrif helaeth i gyfuno gwybodaeth o'r ddau ddarn darllen gan gyflwyno gwybodaeth/ffeithiau yn ddidrafferth. Roedd strwythur a threfn yr atebion yn y gyfres hon yn well na chyfres yr haf ym marn yr arholwyr. Roedd nifer wedi dewis cyflwyno'u hatebion gan ddefnyddio'r ddau bwynt bwled a welwyd yn y cwestiwn fel dau is-deitl ac roedd hynny wedi bod o gymorth iddynt. Roedd safon y dehongli a welwyd yn yr atebion yn gyffredinol yn well na'r hyn a welwyd yn yr atebion ar gyfer A7. Er hynny, yn debyg i A7, roedd nifer yn aralleirio'r problemau / syniadau yn hytrach na'u dehongli ac efallai bod hwn yn rhywbeth y dylid rhoi sylw iddo yn y canolfannau.

Roedd yr atebion a welwyd yn y gyfres hon yn dangos bod dealltwriaeth yr ymgeiswyr o ofynion y cwestiwn yn gadarnach nag yng nghyfres yr haf. Llwyddodd y goreuon i ddehongli'r effaith ddinistriol ar yr amgylchedd, yr effaith ar y bobl ac ar y Gymraeg. Roedd y goreuon hefyd yn dangos eu bod nhw'n gallu pwyso a mesur yr effeithiau gan gynnig dehongliadau gwreiddiol a chraff. Yn yr achosion hynny lle gwelwyd dehongli craff, roedd hi'n amlwg bod gan yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r pwnc llosg yma a hefyd wedi eu hyfforddi i ddefnyddio'r eirfa bwrpasol yn hyderus yn eu canolfannau.

Gwelwyd sawl ymgeisydd yn defnyddio'u gwybodaeth bersonol am y pynciau yn eu hatebion, mae hi'n bwysig eu hatgoffa nhw mai gwybodaeth o'r darnau darllen yn unig y dylid ei defnyddio. Yn ogystal, mae hi'n bwysig atgoffa'r ymgeiswyr i ateb gofynion y cwestiwn dan sylw. Nododd sawl arholwr eu bod nhw wedi gweld enghreifftiau o ymgeiswyr yn trafod bwriad ac arddull y darnau darllen.

**A12 Golygu**
Bu cwestiwn A12 (ii) yn her i sawl un. Bu newid 'Mae hi'n bwrw glaw…' i'r gorffennol yn faen tramgwydd i sawl ymgeisydd. Roedd nifer dda yn llwyddo i ennill 1 marc oherwydd eu bod nhw'n gallu newid 'gwisgaf' o'r presennol i'r gorffennol. Er hyn, gwelwyd nifer yn defnyddio ffurf y trydydd person 'gwisgodd' yn hytrach na'r person cyntaf 'gwisgais'.

Llwyddodd nifer dda i ddefnyddio'r arddodiad 'i' yn gywir yng nghwestiwn A12(iii) ond gwelwyd sawl enghraifft o'r arddodiad 'wrth' yn cael ei ddefnyddio yn ogystal. Cafwyd amrywiaeth o atebion ar gyfer yr ail frawddeg yn y cwestiwn hwn e.e tuag at, i, iddo, ato, wrth. Prin iawn oedd yr ymgeiswyr lwyddodd i ennill y ddau farc llawn.

**Adran B**

**B1 - Prawf Ddarllen**
Syndod oedd gweld bod cwestiwn B1(i) wedi peri cymaint o drafferth i'r ymgeiswyr. Prin iawn, iawn oedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i ennill y 2 farc yn llawn.
Llwyddodd nifer helaeth o'r ymgeiswyr i dreiglo 'mam' yn feddal ar ôl y rhagenw trydydd person unigol gwrywaidd. Prin oedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i gywiro'r arddodiad yn gywir ar ôl 'gwrando'.

**B2 - Ysgrifennu**
**Sylwadau cyffredinol**
Roedd hi'n amlwg bod y ddwy dasg yn yr adran hon wedi apelio. Prin iawn, iawn oedd yr atebion gwag a phrin iawn oedd yr atebion byr yn ogystal. Roedd hynny'n destun codi calon ac yn arwydd o'ch dyfalbarhad chi gyda'r ymgeiswyr ar lawr dosbarth, diolch i chi.
Llwyddodd y rhan fwyaf i ysgrifennu darnau cyflawn, estynedig, trefnus. Gwelwyd defnydd effeithiol iawn o'r blwch cynllunio gan yr ymgeiswyr yn y garfan hon ac roedd hyn yn talu ar ei ganfed yn y pen draw.

© WJEC CBAC Cyf.

Roedd gafael yr ymgeiswyr ar y ffurfiau yn y cwestiwn hwn yn dda ar y cyfan, gyda'r llythyr ffurfiol yn rhagori ar y dyddiadur. Diffyg gwreiddioldeb unwaith eto oedd y gwendid pennaf yn y dasg ddisgrifio. Roedd tuedd i ailadrodd digwyddiadau yn hytrach na disgrifio ac oherwydd hynny prin iawn oedd y fflach a welwyd yn gyffredinol drwyddi draw. Defnyddiodd sawl ymgeisydd wybodaeth o ddarnau darllen Adran A yn y dasg esbonio a braf yw dweud nad oeddent yn or-ddibynnol arnynt. Roedd cyfyngiadau gyrru 20 milltir yr awr yn dân ar groen sawl ymgeisydd yn y gyfres hon! Yn ddieithriad bron, roedd safon y cynnwys yn rhagori ar safon yr iaith yn y ddwy dasg.

**Dyddiadur**

**Cryfderau:**

- Gwaith y goreuon yn arddangos gafael gadarn iawn ar nodweddion y testun disgrifio. Cafwyd disgrifiadau cynnil a gafaelgar gan y goreuon ac mae hi'n rhyfeddol eu bod nhw'n gall ysgrifennu darnau o'r fath safon o dan amodau arholiad. Er hyn, prin iawn oedden nhw.
- Gwelwyd undod hefyd yng ngwaith y goreuon a chafwyd agoriadau a chlo hynod effeithiol. Roedd hyn yn hynod galonogol i'w weld oherwydd dyma oedd un o brif negeseuon yr adran hon yng nghyfres yr haf.
- Roedd yr ymgeiswyr a oedd yn cyrraedd band 3 yn dangos ymwybyddiaeth amlwg o dechnegau megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau, idiomau.

**Meysydd i'w datblygu**

- Er bod yma ymwybyddiaeth amlwg o dechnegau er mwyn disgrifio, roedd tuedd i'r disgrifiadau hyn fod yn rhai stoc. Gwelwyd yr un disgrifiadau dro ar ôl tro gan sawl ymgeisydd.
- Roedd gafael yr ymgeiswyr ar y ffurf yn amrywiol iawn hefyd. Cafwyd sawl stori a sawl ymson yn hytrach na dyddiadur.
- Roedd tuedd i ailadrodd digwyddiadau un ar ôl y llall ac oherwydd hynny roedd yr un patrymau brawddegol yn cael eu defnyddio ganddynt. Gwelwyd nifer o'r ymgeiswyr yn ddibynnol ar 'Roedd…' drwy'r dyddiadur cyfan heb unrhyw fath o ymdrech i amrywio. Mae hi'n bwysig eu hannog nhw i amrywio'r brawddegau
- Roedd ysgrifennu am wyliau dramor yn ddewis poblogaidd iawn ond cafwyd tuedd i restru digwyddiadau heb unrhyw ymdrech i greu awyrgylch. Rhestrwyd nifer o ffeithiau dibwys e.e. codi, bwyta brecwast, mynd ar yr awyren. Yn yr achosion yma road yr ymgeiswyr wedi treulio gormod o amser yn sôn am y paratoadau i fynd ar y trip a chollwyd amser i fanylu ar y trip ei hun a thrwy hynny greu awyrgylch.
- Gwelwyd diffyg amrywio brawddegau yn effeithio ar farc iaith nifer o ymgeiswyr. Nifer yn ddibynnol ar "*Roedd…'* drwy'r dyddiadur cyfan heb unrhyw fath o ymdrech i amrywio. Cyfyngiadau o ran adnoddau iaith felly yn lleihau apêl gan nad oedd amrywiaeth o batrymau brawddegau

**Llythyr Ffurfiol**
**Cryfderau**

- Gafael dda ar y ffurf
- Roedd y llythyrau wedi cael eu strwythuro'n drefnus a chafwyd paragraffau agoriadol a chlo yn ddieithriad ar draws yr ystod
- Ymwybyddiaeth dda o sut i apelio at gynulleidfa
- Roedd hi'n amlwg bod gan yr ymgeiswyr ddiddordeb yn y testun, cafwyd llythyrau da a oedd yn ymateb i broblemau unigryw yn eu hardal
- Er bod rhai wedi defnyddio'r wybodaeth o'r darnau darllen nid oeddent yn or-ddibynnol ar y wybodaeth

© WJEC CBAC Cyf.

**Meysydd i'w datblygu**

- Mae hi'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn defnyddio cywair sy'n addas ar gyfer y dasg a'r gynulleidfa. Gwelwyd y ffurfiau llafar, anffurfiol yn cael eu defnyddio'n gyson gan yr ymgeiswyr.
- Roedd tuedd i weithiau restru llwyth o broblemau. Collwyd cyfle i fanylu a datblygu syniadau oherwydd nad oeddent yn llwyddo i esbonio beth oedd effaith y broblem/problemau ar y gymdeithas.

**Ysgrifennu'n gywir**

Mae hi'n bwysig fy mod yn ategu'r un neges a gyflwynwyd gennyf yn yr haf sef bod marcio'r cwestiwn hwn yn codi calon. Mae gweld cymaint o bobl ifanc Cymru yn ymdrechu i ysgrifennu'n estynedig ac yn bwrpasol **yn y Gymraeg** er ei bod hi'n amlwg ar brydiau nad yw hyn yn rhwydd o gwbl i rai. Diolch iddyn nhw am eu hymdrech arbennig. Mae safon iaith y goreuon yn rhagorol a'u defnydd o iaith yn fedrusgar.

**Cryfderau**

- Defnydd o eirfa'n dda ac ymdrech hefyd ar waelod yr ystod i amrywio'r eirfa
- Y goreuon yn defnyddio geirfa heriol yn hyderus a phwrpasol
- Sillafu'n dda ar y cyfan
- Gwelwyd llai o eiriau Saesneg yn cael eu defnyddio yn ystod y cylch hwn
- Gafael y goreuon ar y berfau afreolaidd a'r berfau amhersonol yn dda iawn
- Ymgeiswyr ar draws yr ystod yn llwyddo i gyfathrebu'n eglur

**Meysydd i'w datblygu**

- Defnydd o ferfau a therfyniadau berfau yn anghyson. Ymgeiswyr yn defnyddio ffurf trydydd person y ferf yn hytrach na'r person cyntaf e.e *gwelodd fi…*
- Rhaid canolbwyntio hefyd ar ffurfiau ferf 'bod' e.*e roedd fi, roedd ni, roedd nhw* yn ymddangos yn amlach na pheidio erbyn hyn
- Brawddegau'n cael eu llunio heb unrhyw ferf o gwbl ar brydiau
- Atalnodi + defnyddio prif lythrennau'n gywir
- Mae'r fannod yn anghyson ar draws yr ystod
- Rhedeg yr arddodiad 'i' ac 'o'

Gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn o fudd i chi yn eich canolfannau.
Hoffwn ddiolch i chi am eich gwaith gyda'r ymgeiswyr a llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**Tachwedd 2023**

**UNED 3**

## Trosolwg o'r Uned

Diolch yn fawr iawn i'r athrawon am eu gwaith yn sicrhau bod yr ymgeiswyr wedi'u paratoi ar gyfer y papur hwn. Nid oedd gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer y gyfres hon, ond gwelwyd fod yr ymgeiswyr yn gyffredinol gyfarwydd â'r gofynion. Cafwyd cynnydd o 500 o gymharu â niferoedd Tachwedd 2022, gyda sawl canolfan yn cofrestru'r flwyddyn gyfan, felly gwelwyd yr amrediad gallu o'r herwydd. Braf yw nodi bod y safonau wedi codi, gyda'r dyfarnu'n dychwelyd i safonau cyn y cyfnodau clo. Yn Adran A roedd yr ymatebion adalw gwybodaeth yn gadarn, gyda mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr yn llwyddo i ennill marciau, ac roedd y cwestiynau esbonio a dehongli/dadansoddi yn amlwg yn cynyddu lefel yr her ac yn cynnig ymatebion oedd yn cwmpasu'r ystod gallu. Braf oedd gweld fod trwch yr ymgeiswyr wedi gallu ymdrechu i ateb pob cwestiwn yn adran A, gan gynnwys cwestiynau heriol A6, A8 ac A11. Yn Adran B llwyddodd mwyafrif llethol yr ymgeiswyr i gwblhau'r ddwy dasg ysgrifennu, gyda lleihâd, yn y gyfres hon, yn y nifer fethodd roi cynnig ar naill ai B1 neu B2.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Adran A

Llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i sicrhau marciau yn y cwestiynau adalw gwybodaeth ac esbonio - A1,2,3,4,5,7,10.

**A6**
Dyma gwestiwn oedd yn gofyn i ymgeiswyr esbonio newidiadau yn y faner Pride, a sut roedd wedi datblygu. Yn anffodus, tueddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i adalw gwybodaeth yn unig o'r darn darllen, heb unrhyw ymgais i ddehongli'r newidiadau. Ailadrodd cynnwys a wnaed, yn hytrach nag esbonio'r newidiadau. Byddai disgwyl sylwadau y tu hwnt i'r darn darllen er mwyn sicrhau marc o 3 neu 4, a phrin iawn oedd yr ymatebion hyn. Gellid bod wedi nodi fod newidiadau o ran lliw/diwyg/siâp, fod y faner yn dod yn fwy cynhwysol/cynrychioliadol ac yn y blaen.

**A8**
Yn y gyfres hon, nodwyd yn y cwestiwn bod angen 'enghreifftiau o dechnegau arddull' wrth ateb. Mae hyn yn ymateb i safon siomedig y cwestiwn hwn yng nghyfres yr Haf. Yn anffodus, method nifer sylweddol ag adnabod y cwestiwn fel un i drafod arddull, ac o'r herwydd roedd y cymedr yn 2.7 allan o 6. Gwelwyd nifer arwyddocaol yn trafod cynnwys yma, ac o ganlyniad yn methu sgorio. O ran y disgyblion hynny lwyddodd, arfer dda oedd dewis oddeutu 4/5 nodwedd arwyddocaol a'u trafod mewn manylder, yn hytrach na rhestru pob nodwedd arddull. Trwy wneud hyn llwyddwyd i ddehongli bwriad yr awdur a dadansoddi'r effaith yn gelfydd. Gwelwyd ôl hyfforddi effeithiol gydag ymgeiswyr yn dechrau brawddegau gyda thagiau megis " Pwysleisia hyn…", "Awgryma hyn…" "Tanlinella hyn…", "Gellir dadlau fod hyn yn…", "Llwydda hyn…".

© WJEC CBAC Cyf.

**A9**
Cwestiwn heriol, oedd yn gofyn am elfen o gyfiawnhad. Achosodd hyn gryn anhawster gyda rhai ymgeiswyr yn parhau i gynnig ateb stoc megis, “mae o’n dda achos mae o’n dweud beth mae’r darn yn mynd i sôn amdano.” Dylid hyfforddi ymgeiswyr i ymateb yn benodol i’r teitl/frawddeg/cymal sydd angen esboniad.

**A11**
Dyma’r cwestiwn darllen amlygodd y lefel uchaf o her i’r ymgeiswyr. Mae’n bwysig hyfforddi ymgeiswyr i ystyried BETH maen nhw’n mynd i fod yn ei gymharu. Cafwyd nifer yn cymharu darnau darllen, yn hytrach na phrofiadau Siwan Rhys a Myles Scott oedd yn cyfyngu ar lwyddiant eu hymatebion. Wedi dweud hynny, llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i nodi o leiaf un nodwedd debyg/wahanol am y ddau, e.e. “Mae gan y ddau broblem efo lliwiau.” Roedd nifer o’r ymgeiswyr yn bodloni ar restru’r nodweddion hyn heb geisio dehongli, ac o ganlyniad roedd eu marciau’n cael eu cyfyngu. I sicrhau marc 3+ yn y cwestiwn hwn mae disgwyl i ymgeiswyr ddod i gasgliadau ynghylch yr hyn sy’n debyg ac yn wahanol am Siwan Rhys a Myles Scott.

Dylent nodi’r ‘casgliadau’ hyn ar ddechrau pob paragraff wrth ymateb, cyn enghreifftio a dehongli. Un dull effeithiol o sicrhau bod dehongli yn gallu digwydd yw trwy ddefnyddio ansoddair i gymell hynny, e.e. profiadau POSITIF, NEGYDDOL, HERIOL, GYRFAOL, MEDDYGOL, PROFFESIYNOL, ARIANNOL ac yn y blaen. Unwaith eto yn y cwestiwn hwn, gwelwyd defnydd effeithiol o dagiau ar ddechrau brawddegau yn cymell dehongli, yn union fel yn achos A8, e.e. Pwysleisia hyn…”, “Awgryma hyn…” “Tanlinella hyn…” ayb. Unwaith yn rhagor yn y gyfres hon bu i ambell ymgeisydd drafod arddull yn y cwestiwn hwn a cholli marciau yn sgîl hynny.

**Adran B**

Hoffwn nodi fod yr achosion hynny ble gwelwyd ymgeiswyr yn copïo’n health o Adran A wedi lleihau’n sylweddol. Bellach, mae ymgeiswyr yn gallu dwyn ysbrydoliaeth neu syniad o’r adran ddarllen, a defnyddio hynny ar gyfer eu gwaith eu hunain. Mae hyn yn welliant amlwg. Eleni, roedd lleihad yn y nifer fethodd â chwblhau’r ddwy dasg yn yr adran hon. Tueddwyd i weld yr enghreifftiau o hynny gyda’r ymgeiswyr gwannaf. Hoffwn nodi fod gweld ymdrech yr ymgeiswyr ar draws y ddwy dasg yn destun balchder, ac mae ansawdd y gwaith ar y brig yn rhywbeth y dylid ei werthfawrogi wedi cyfnod mor heriol.

**B1 – Erthygl**

Roedd strwythur a gofynion y ffurf yn hysbys i drwch yr ymgeiswyr. Ar y brig, gwelwyd sawl enghraifft oedd yn argyhoeddi ac yn defnyddio’r ffurf yn fedrus ac aeddfed. Cafwyd enghreifftiau cadarn yn trafod rhywiaeth,VAR, hawliau dynol, a gwelwyd bod sawl sbardun llafar Uned 1 wedi bod o fudd i’r ymgeiswyr. Llwyddodd y mwyafrif i drafod annhegwch, gyda’r goreuon yn cadw at un ‘maes’ neu bwnc. Roedd ymgeiswyr is eu gallu yn tueddu i drafod gwahanol enghreifftiau digyswllt, e.e. hawliau LHDCT+, hiliaeth a chinio ysgol. Yn yr achosion hyn, nid oedd lefel o dreiddgarwch a manylder yn yr ymdriniaeth, ac felly roedd y gwaith yn darllen yn arwynebol. Roedd strwythur pendant yn nifer yr atebion - datganiad agoriadol, yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, ac felly i gloi - ac roedd y math yma o sgaffald yn bendant o fudd ar gyfer dysgwyr canolig ac is eu gallu. Roedd defnyddio cysyllteiriau trafod hefyd yn gryfder, gydag ymgeiswyr yn amlwg yn gyfarwydd â’u defnyddio. Ambell dro teimlwyd bod ymgeiswyr yn gwthio nodweddion arddull diangen i mewn i’w gwaith, a hynny mewn modd annaturiol. Roedd hyn yn hynod wir am y defnydd o idiomau. Dylid cofio gwerth defnyddio idiom er mwyn cryfhau neges neu gysyniad, nid fel cymal digyswllt er mwyn ticio bocs.

© WJEC CBAC Cyf.

**Cryfderau**

- Dewis pwnc addas
- Dulliau rhethreg a pherswadio
- Strwythur clir/trefnus
- Gwaith cydlynol
- Pynciau aeddfed- hiliaeth, cynhesu byd-eang, dadgoedwigo

**Meysydd i'w datblygu**

- Rhai ymgeiswyr yn cyflwyno gwybodaeth ar bwnc yn hytrach na'i drafod
- Rhai ymatebion yn bytiog a digyswllt - angen undod
- Diffyg strwythur

**B2 – Llythyr ffurfiol**

Roedd llygad yr ymgeiswyr ar y cloc yn y cwestiwn olaf ar y papur, ac o ganlyniad tueddodd y llythyrau i fod yn fyrrach. Llwyddodd pob ymgeisydd i ddeall y briff, ac roeddent yn ceisio dwyn perswâd ar y 'cyflogwr' yn eu hymatebion. Ar frig yr ystod gallu, roedd y llythyrau yn broffesiynol eu naws, ac yn rhai y gellid eu hanfon. Roedd un ymgeisydd nodedig yn awyddus i gael swydd fel athro Cymraeg. Mawr obeithiaf y bydd ei gais yn llwyddiannus - byddai'n gaffaeliad i unrhyw sefydliad! Fodd bynnag, oherwydd oedran yr ymgeiswyr, roedd eu profiad o ymgeisio am swyddi yn gyfyngedig ac felly roedd eu llythyrau cais yn eithaf cyfyng o ran cynnwys a phrofiad.
Tra bo'r perswâd yn amlwg yn eu gwaith, roedd y cywair yn aml yn amhriodol, gyda nifer sylweddol yn defnyddio'r rhagenw anghywir ar gyfer llythyr o'r fath. Hefyd roedd nifer yn llunio'u llythyrau gyda naws anffurfiol/llafar iddynt, e.e. 'fi'n rili joio gweithio da plant,' neu 'dwi di bod isho bod yn mechanic ers oni'n fach." Yn gyffredinol roedd safon ieithyddol B2 yn is na B1 gyda mwy o wallau a defnydd o'r Saesneg yn ymddangos (er bod llai o hyn na'r gyfres flaenorol).

**Cryfderau**

- Cywair priodol
- Strwythur clir
- Dwyn perswâd
- Iaith safonol

**Meysydd i'w datblygu**

- Llythyrau byrion, arwynebol
- Ddim yn dweud pa swydd yr oeddent yn ymgeisio amdani
- Diffyg strwythur a threfn
- Cywair anghywir – rhy anffurfiol

**Iaith Adran B**
**Cryfderau**

- Amrywio brawddegau
- Geirfa eang, estynedig, pwnc-berthnasol
- Defnydd hyderus o gysyllteiriau trafod

© WJEC CBAC Cyf.

- Berfau cryno cyfoethog – person 1af, 3ydd a'r amhersonol
- Cwestiynau effeithiol
- Defnyddio nodweddion arddull yn effeithiol er mwyn cyfoethogi'r mynegiant

**Meysydd i'w datblygu**

Mae mwyafrif y pwyntiau hyn yn ymddangos yn adroddiad Haf 2023 ac felly mae angen i ni barhau gyda'r gwaith o ddatblygu cywirdeb yng ngwaith yr ymgeiswyr:

- Brawddegau heb ferf o gwbl
- Defnyddio'r fannod – y/yr/'r
- Ti / chi - mae angen i'r iaith fod yn y cywair priodol ar gyfer y dasg dan sylw, yn enwedig wrth lunio erthygl a llythyr cais
- Camddefnyddio 'ei' e.e. 'Roeddwn i wedi cael ei ddewis...'
- Treiglad trwynol yn dilyn 'fy'
- Rhedeg arddodiad – 'ysgrifennu i ti, at y swydd, am ti
- Berfau'r gorffennol – cafodd i
- Defnydd o'r ferf bod – roedd i
- Iaith lafar e.e.  fi'n mynd, aru fi, gedru
- Dileu geiriau Saesneg o'r tasgau ysgrifennu
- Atalnodi – prif lythrennau ac atalnod llawn
- Paragraffu

© WJEC CBAC Cyf.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.30 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ffôn: 02920 265004 / 02920265192

E-bost: cymraeg@cbac.co.uk

Tudalen pwnc y cymhwyster: TGAU Cymraeg Iaith (cbac.co.uk)

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Manylion Cyswllt Defnyddiol | CBAC

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn darparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol uniongyrchol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn cefnogi ein cymunedau addysg trwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, er mwyn rhoi cyfle i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

[i] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Cyf.